**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**05/05/23**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo-Menai), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol - Dewi A. Morgan (Swyddog Cyllid Statudol - Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Awdurdod Lletya), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Elgan Roberts (Rheolwr Prosiect Ynni) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth - Awdurdod Lletya).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.

**5. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF Y BWRDD UCHELGAIS AR GYFER 2022-23**

Gosodwyd y cyd-destun gan Dewi A. Morgan (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya – Swyddog Cyllid Statudol) a manylodd Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya) ar gynnwys yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodi a derbyn adroddiad alldro refeniw y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1 i'r adroddiad), cronfeydd y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2) a'r Adolygiad Cyfalaf Diwedd Blwyddyn ar 31 Mawrth 2023 (Atodiad 3).**
2. **Cymeradwyo i'r tanwariant refeniw o £148,000 ar gyfer 2022/23 gael ei drosglwyddo i gyllideb 2023/24, gyda £18,000 ohono yn cael ei ychwanegu at y pennawd Bwrdd Cyflawni Busnes a £130,000 gael ei ychwanegu at y pennawd Prosiectau.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn hysbysu'r Bwrdd Uchelgais am ei sefyllfa ariannol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2022/23.

**TRAFODAETH**

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod angen ychwanegu £18,000 at y pennawd Bwrdd Cyflawni Busnes (argymhelliad 2) oherwydd bod gwaith y Bwrdd o dendro contract wedi llithro i ran gyntaf 2023/24.

Eglurwyd ymhellach:-

- Bod y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi hysbysebu am bartner i gydweithio ar friff penodol ar ran y Bwrdd Cyflawni Busnes a thîm cynghori o'r sector fusnes.
- Bod y briff yn amlinellu proses ar gyfer ymgysylltu â phartner fyddai'n gallu creu adroddiad gwaelodlin ar ein cyfer ac edrych ar economi Gogledd Cymru a'r sectorau sydd yma, gan asesu'r cryfderau a'r cyfleoedd o fewn y sector hwnnw.
- Bod y briff cychwynnol wedi bod yn heriol iawn i'r partneriaid. Ceisiwyd annog cymaint o elw â phosib', ond yn anffodus ni chafwyd unrhyw ymateb i'r tendr.
- Bod darparwr arall wedi cysylltu yn ddiweddar iawn ac wedi gofyn am gyflwyno tendr, a gofynnwyd i'r darparwr hwnnw ddatblygu cynnig dros y tair wythnos nesaf.
- Y byddai'r adroddiad gwaelodlin o gymorth i ymateb i'r gofyn i ddarparu strategaeth fuddsoddi er mwyn dangos sut y bydd y Cynllun Twf yn trosoli'r rhagor na £722m fydd ei angen i gyflawni'r £1bn o Gynllun Twf yn ei gyfanrwydd dros y cyfnod.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, eglurwyd bod y swm o £722m yn seiliedig ar faint o fuddsoddiad fydd yn rhaid ei drosoli o'r sector preifat, sy'n cyfuno gydag ymrwymiad blaenorol y ddwy lywodraeth i ddarparu £240m dros y cyfnod, a bod swm ychwanegol wedi'i glustnodi i ddod i mewn fel arian ychwanegol o'r sector gyhoeddus yn ogystal.

## 6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 4

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) ac ymhelaethodd y rheolwyr rhaglen ar uchafbwyntiau'r rhaglenni unigol.

Nodwyd bod angen cywiro Statws RAG y prosiect M-Sparc (Prifysgol Bangor) o ambr i wyrdd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.**
2. **Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan y BUEGC, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Nododd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos bod cynnydd yn digwydd mewn sawl maes.

Gan gyfeirio at brosiect Warren Hall, Brychdyn, mynegwyd siomedigaeth fod Adroddiad y Panel Adolygiad Ffyrdd yn cael ei ddefnyddio fel rheswm i beidio bwrw ymlaen â chynlluniau pwysig fel hyn, a galwyd am drafodaeth frys rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd a Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn disgwyl am arweiniad gan y Gweinidog mewn perthynas â'i ymateb i argymhelliad y Panel Adolygiad Ffyrdd, ac y derbyniwyd adborth anffurfiol bellach gan y Llywodraeth bod ffordd ymlaen i'r prosiect.
- Bod cyfarfodydd wedi'u rhaglennu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Cyngor Sir y Fflint i drafod hyn ymhellach, a disgwylid y gellid rhoi mwy o sicrwydd yn Chwarter 1 2023/24 bod y prosiect yn symud yn ei flaen mewn ffordd bositif.

Holwyd beth fyddai effaith y Porthladd Rhydd ar brosiectau'r Cynllun Twf. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Porthladd Rhydd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Stena Line a phartneriaid eraill yn ogystal, a bod buddsoddiad sylweddol Stena Line yn y safle yng Nghaergybi cyn i'r cyhoeddiad ynglŷn â'r Porthladd Rhydd gael ei wneud, a chyn cychwyn ar unrhyw waith yn y porthladd, yn arwydd o hyder y cwmni yn y fenter.
- Ei bod yn ddyddiau cynnar o ran y prosiect hwn. Roedd yna 6 mis i gyflwyno achos busnes llawn a byddai angen proses lywodraethu ac ymgysylltu i gael mewnbwn yn ystod y broses yna.
- Mai Cyngor Sir Ynys Môn fyddai'r corff atebol, a byddai Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor yn gorfod sicrhau cydymffurfiaeth.
- Yn dilyn y broses llywodraethu, bwriedid ymgysylltu gydag arweinyddion a phrif arweinwyr eraill y rhanbarth i sicrhau bod pawb yn deall y cyfeiriad a lle fydd yr effaith a'r cyfle i ddylanwadu, yn enwedig ar y strategaethau trawsffiniol o ran cyflogaeth a sgiliau, arloesi, net sero a'r iaith Gymraeg.

Holwyd a fyddai'r newid o ran rheoli arian cyhoeddus a darparu buddsoddiad band llydan yng Nghymru yn peryglu prosiectau digidol y Cynllun Twf. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Mai Llywodraeth Cymru oedd wedi bod yn gwneud hyn yn hanesyddol, gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth y DU, ond bod y cyfrifoldeb bellach wedi trosglwyddo i Lywodraeth y DU yn bennaf.
- Yn ymarferol, bod hyn yn symudiad positif o'n safbwynt ni gan ein bod yn agos at fanylder yr hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd, ac roedd gennym gyswllt da gyda Llywodraeth y DU.
- Bod y ddwy lywodraeth wedi bod yn ofalus yn sicrhau bod y rhanbarth, gan gynnwys Gogledd Cymru, yn agos at ddiweddariadau a'r cyfle i gyfrannu tuag at siapio'r caffael.

Nodwyd mai'r gyffordd sy'n effeithio fwyaf ar brosiect Porth y Gorllewin, Wrecsam, yw Cyffordd 4 yr A483 a'r A525 (Ffordd Rhuthun) a bod yna broblemau dirfawr o safbwynt y gyffordd honno. Roedd barn Cwnsler y Brenin yn datgan bod rhaid gwella'r gyffordd cyn datblygu safle Porth y Gorllewin, ond pe na fyddai'r arian yn dod ymlaen ar gyfer hynny gan Lywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Cefnffyrdd, ni ellid datblygu'r safle. Nid oedd y PMO yn ymwybodol bod y Cyngor wedi cael y farn gyfreithiol yma, nac wedi derbyn copi o'r farn honno. Mae'r PMO wedi cyfrannu tuag at ddrafft o'r briff tendr ar gyfer Prif Gynllun Porth y Gorllewin fydd yn cynnwys yr argymhellion gan y Panel Adolygu Ffyrdd.

Mewn ymateb, eglurwyd na ofynnid am unrhyw benderfyniad ar y mater hwn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod heddiw.

Holodd y Cadeirydd a oedd yr adolygiad ffyrdd am gael effaith negyddol ar brosiect Porth y Gorllewin, ac a olygai hynny bod angen cynnal trafodaeth gyda'r Gweinidogion.

Mewn ymateb, nodwyd na ddeellid bod barn Cwnsler y Brenin wedi'i gael ar hyn, ond bod trafodaethau'n parhau gyda swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn ceisio dod i gasgliad a yw'n bosib' cyflawni'r prosiect heb uwchraddio Cyffordd 4 ai peidio.

Holodd y Cadeirydd a awgrymid felly y dylid cael adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf, neu a oedd angen dechrau lobïo ar y mater yn gynt, yn hytrach nag yn hwyrach.

Mewn ymateb, awgrymid y dylid aros i weld tystiolaeth bod rhaid uwchraddio'r gyffordd cyn mynd yn ôl at Lywodraeth Cymru.

Nodwyd ei bod yn ymddangos y bydd Adroddiad Perfformiad a Risgiau Chwarter 1 2023-24 yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth, ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol trefnu sesiwn briffio ar gyfer yr aelodau cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd i roi trosolwg manwl o'r cynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag ymateb y Swyddog Cyllidol Statudol i'r adroddiad, nodwyd nad oedd gwrthwynebiad cynnwys y geiriad "*Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad <u>gwir</u> a theg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru*" o hyn allan petai hynny'n briodol.

**7. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – PROSES GYMERADWYO FBC WEDI'I MIREINIO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio).

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r llwybr cymeradwyo wedi'i fireinio ar gyfer Achosion Busnes Llawn (FBC) fel yr amlinellir ym mharagraff 4.10 yr adroddiad ble:**

- **Na fu unrhyw newid yn sgôp y prosiect ers i'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) gael ei gymeradwyo nac unrhyw gais dilynol am newid a gafodd ei gymeradwyo.**
- **Nid yw targedau amcanion gwario (e.e. swyddi) wedi cael eu lleihau fwy na 10% ers i'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) gael ei gymeradwyo nac unrhyw gais dilynol a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.**
- **Nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru ers i'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) gael ei gymeradwyo nac unrhyw gais dilynol am newid a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.**
- **Nid oes angen awdurdod dirprwyedig pellach gan y Bwrdd.**

2. **Ym mhob achos arall y bydd y broses gymeradwyo FBC arferol yn berthnasol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I amlinellu cynnig i fireinio'r broses gymeradwyo ar gyfer Achosion Busnes Llawn (FBC) er mwyn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi terfynol gan y Bwrdd yn cael eu gwneud mewn modd amserol ac effeithiol.

**TRAFODAETH**

Mewn ymateb i gais am esboniad o’r goddefiant o 10% yn ail bwynt bwled argymhelliad 1, eglurwyd y gosodwyd y goddefiant i gydnabod bod yna fân newidiadau fel rheol wrth i brosiectau fynd drwy’r broses hon, yn arbennig drwy gaffael, a bod 10% yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel lleihad rhesymegol a chyfrannol sy’n rhoi hyblygrwydd, ond eto ddim yn ffigwr sylweddol. Gan hynny, petai yna 1 neu 2 o swyddi yn newid yn ystod y broses, ni fyddai hynny o reidrwydd yn golygu gorfod ail-gychwyn y broses.

Holwyd a fyddai’r broses wedi’i mireinio yn berthnasol i brosiectau sy’n mynd drwy’r broses o ddatblygu Achos Busnes Terfynol (FBC) ar hyn o bryd, ac a fyddai’r drefn newydd yn weithredol yn syth.

Mewn ymateb, nodwyd bod bwriad i weithredu hyn yn syth, petai’r Bwrdd yn cyd-fynd â’r argymhelliad, felly byddai’n berthnasol i brosiectau sydd yn y broses o ddatblygu Achos Busnes Terfynol (FBC). Eglurwyd hefyd y byddai’r broses wedi’i mireinio o fantais i’r prosiectau hynny oherwydd y gallai oedi olygu cynnydd mewn costau.

Mewn ymateb i sylw o ran tryloywder ac atebolrwydd y Bwrdd, eglurwyd bod y broses wedi’i mireinio yn golygu symleiddio’r swyddogaethau sicrwydd swyddfa cefn sy’n digwydd cyn dod ag achosion busnes gerbron y Bwrdd, ac sy’n gallu cymryd rhai misoedd. Ychwanegwyd na fyddai hynny’n digwydd ymhob achos, fodd bynnag.

Holwyd a oedd yna enghreifftiau go iawn o achosion lle bu i’r lleihad ym maint yr amser y mae prisiau tendr yn ddilys arwain at sefyllfa o orfod ail-gaffael.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd hyn wedi digwydd o fewn y Cynllun Twf ei hun, ond bod ein partneriaid wedi datgan pryder bod ganddynt brosiectau byw lle mae’r prisiau tendr ond yn ddilys am 30 diwrnod, neu 60 diwrnod ar y mwyaf, ac felly nad oes amser i fynd drwy’r broses sicrwydd a chymeradwyo prosiect cyn i’r pris tendr ddod i ben.
- Pe na ellid cymeradwyo prosiect mewn pryd, bod perygl y byddai’r partneriaid a noddwyr y prosiect naill ai’n mynd yn ôl at eu contractwr o ddewis, fyddai’n golygu cynnydd yn y costau, neu yn y sefyllfa waethaf, y byddai’n rhaid ail-gaffael.

- Er nad oedd y Cynllun Twf wedi profi hyn eto, nid oeddem ymhell o orfod wynebu'r sialensiau hynny ein hunain wrth i brosiectau agosáu at gymeradwyaeth Achos Busnes Terfynol.

Cyfeiriwyd at Brosiect Prosesu Signalau Digidol (DSP) Prifysgol Bangor fel enghraifft o gynllun ddaeth o fewn dyddiau i'r pris tendr ddod i ben, a'r Ganolfan Beirianneg ar gampws Coleg Llandrillo yn Rhyl, fel enghraifft o gynllun lle bu'n rhaid ail-dendro ar gost ychwanegol o £1m, o ganlyniad i fethiant Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r prosiect terfynol yn ddigon sydyn.

Awgrymwyd y dylai'r Bwrdd Cyflawni Busnes fod yn rhan o'r broses o asesu prosiectau gan y byddai hynny'n creu mwy o hygrededd o safbwynt y sector preifat, ac na fyddai'n ychwanegu at yr amserlen.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gan y Bwrdd Cyflawni Busnes rôl allweddol yn y broses o gymeradwyo Achosion Busnes Amlinellol gan eu bod yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais.
- Nad oedd yr adroddiad yn rhoi ystyriaeth lawn i rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes yn y broses o gymeradwyo Achosion Busnes Terfynol, a gellid trafod hynny ymhellach gyda'u cynrychiolydd ar y Bwrdd hwn.
- Bod ychwanegu mwy o gyfarfodydd i'r broses yn ychwanegu at yr amserlen, ond pe gellid alinio cyfarfodydd y Bwrdd Cyflawni Busnes a'r Bwrdd Uchelgais yn effeithiol, yna dylai fod yn bosib' cynnwys y ddau, heb ymestyn yr amserlen.

Awgrymwyd y gellid ymgynghori â'r Bwrdd Cyflawni Busnes dros e-bost, yn hytrach na chynnal cyfarfodydd ffurfiol, ac felly y byddai pawb yn dal i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys.

Cytunwyd i gynnal sgwrs gyda chynrychiolydd y Bwrdd Cyflawni Busnes i weld sut orau i ymgysylltu â'r corff.

## 8. ADNODDAU I'R SWYDDFA RHEOLI PORTFFOLIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio).

**PENDERFYNWYD**

**Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r cynnydd yn swm y grant Cynllun Twf sydd ar gael i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio o 1.5% i 2% gan leihau swm cyffredinol yr arian i gefnogi prosiectau newydd drwy'r broses prosiectau newydd o £1.2 miliwn ac ystyried cynnydd pellach petai unrhyw arian heb ei ddyrannu ar ddiwedd y broses i ddewis prosiectau newydd ar gyfer y Cynllun Twf.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I amlinellu opsiynau i ddarparu adnoddau i'r Swyddfa Rheoli Portffolio dros y pedair blynedd nesaf i oruchwylio cyfnod cyflawni allweddol Cynllun Twf Gogledd Cymru

**TRAFODAETH**

Nododd y Cadeirydd fod gennym dîm hynod o alluog a chryf yng Ngogledd Cymru, sy'n ased i ni, a'i bod yn bwysig edrych ar bob cyfle i gadw'r tîm yna gyda'i gilydd.

Holwyd a oedd cynyddu swm y grant sydd ar gael i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio o 1.5% i 2% yn ddigonol.

Mewn ymateb, nodwyd y credid bod cynnydd o 0.5% yn realistig ac yn gyfrannol, ac yn gydnaws â chynlluniau twf eraill, a'i bod yn bwysig cadw cymaint o gyfalaf â phosib' ar gyfer cyflawni'r prosiectau a chaniatáu i ni gwrdd ag amcanion y Cynllun Twf a chyflenwi swyddi.

Nodwyd bod paragraffau 4.12 a 4.13 o'r adroddiad yn nodi mai'r cynnig yw defnyddio 50% o'r £1.2m ychwanegol i alluogi ymestyn contractau tymor sefydlog presennol yn y tîm i fis Mawrth 2025, ac na ellir darparu estyniad pellach hyd nes y byddai ffynonellau cyllid eraill yn cael eu sicrhau. Yn wyneb hynny, holwyd beth oedd yn digwydd i'r £600,000 arall.

Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Y bwriedid defnyddio £600,000 y flwyddyn nesaf er mwyn galluogi'r estyniad 12 mis hwnnw, fydd yn lliniaru'r risg o staff yn gadael yn ystod y flwyddyn nesaf ac yn prynu amser i ni weld beth fydd canlyniad y pecyn ariannu arall rydym yn ymgeisio amdano drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF).
- Gan hynny, bod y £600,000 wedi'i ddyrannu'n ddamcaniaethol ar gyfer blynyddoedd 3 a 4, ond pe na lwyddid i sicrhau unrhyw gyllid ychwanegol, efallai y byddai'n rhaid defnyddio'r arian hwnnw mewn ffordd wahanol, ac ni fyddai'n bosib' ymestyn cytundeb pawb gyda'r swm hwnnw o arian.
- Pe byddai'r cais i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, neu unrhyw ffynhonnell allanol arall, yn llwyddiannus, byddai'n ofynnol ail-broffilio sut y byddem yn defnyddio'r £1.2m, felly yn hytrach na defnyddio'r £600,000 y flwyddyn nesaf, byddem yn ei ddefnyddio ym mlynyddoedd 3 a 4.

Awgrymwyd bod y geiriad yn yr adroddiad yn gwrth-ddweud ei hun gan ei fod yn dweud na ellir darparu estyniad pellach hyd nes y byddai ffynonellau cyllid eraill yn cael eu sicrhau.

Mewn ymateb, cadarnhawyd, er eglurder, na ellir darparu unrhyw estyniadau pellach i'r holl staff ar y sail hynny, felly ni ellid cynnig estyniadau pellach i bawb os mai'r £1.2m yw'r unig gyllid sydd ar gael.

Nodwyd bod y risg o golli staff yn sylweddol, ac felly nad oedd gan y Bwrdd lawer o ddewis ond derbyn yr argymhelliad.

Nodwyd bod yna brinder sylweddol o dalent erbyn hyn a bod cynnig cytundeb tymor byr yn creu risg i'r rhanbarth. Roedd y Swyddfa Rheoli Portffolio bellach yn datblygu i fod yn dîm datblygu economaidd ar gyfer Gogledd Cymru. Gallai'r tîm ymgymryd â llawer o brosiectau eraill y tu allan i'r Cynllun Twf yn y dyfodol, ac roedd angen i ni wneud yn fawr o hynny a chychwyn meddwl am ddatrysiad parhaol. Roedd angen hefyd i Lywodraeth Cymru ddatganoli rhai o'r dyletswyddau hyn i Ogledd Cymru fel bod modd i fwy o'r penderfyniadau gael eu gwneud o fewn y rhanbarth.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mewn byd delfrydol, y byddem yn dymuno i'r holl staff fod ar gytundebau parhaol, ond roedd yn rhaid gweithredu o fewn yr amlenni cyllido sydd gennym, a chredid bod y penderfyniad a geisid gan y Bwrdd yn lliniaru'r risg wrth i ni chwilio am ffynonellau ariannu eraill, ond roedd angen cynllun mwy hirdymor yn dilyn hynny yn sicr.

- Bod yr amgylchedd gwaith yn gystadleuol, yn arbennig ym maes rheoli prosiectau, yn y meysydd ynni a digidol, a hwn oedd y risg mwyaf ar hyn o bryd.
- Y tybir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith o gyflawni prosiectau wedi'i gwblhau erbyn diwedd y cylch 4 blynedd hwn, a byddwn yn symud i gyfnod o fonitro, gwerthuso a gwireddu'r manteision, pan na fydd angen i'r Swyddfa Rheoli Portffolio fod mor fawr at ddibenion cyflawni'r Cynllun Twf.
- Bod opsiwn i'r Bwrdd a'r rhanbarth ddefnyddio'r tîm ar gyfer gweithgareddau eraill yn y dyfodol pe dymunid. Roedd gennym dîm ffantastig ac adnodd ffantastig yma ac roeddem wedi adeiladu gallu ac arbenigedd sylweddol yn y sectorau yma dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac ni ddymunid colli neb o'r staff sydd gennym ar hyn o bryd.

Nodwyd bod rhai prosiectau eisoes wedi mynd drwy Achos Busnes Amlinellol ac wedi dod yn ôl i'r Bwrdd ond wedi gorfod cael ychwanegiad at eu dyraniad er mwyn symud yn eu blaenau. Holwyd a fyddai'r cynnydd yma yn cael ei orfodi ar y prosiectau hynny sydd wedi gorfod mynd drwy broses o gwtogi eu hunain eisoes er mwyn ceisio cadw o fewn y gofynion cyllidol.

Mewn ymateb, cadarnhawyd nad oedd y penderfyniad heddiw yn cael effaith ariannol ar unrhyw brosiectau cyfredol, a bod yr arian yn dod o'r pot o £30m sydd heb ei ddyrannu ar gyfer prosiectau newydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 13.30 a daeth i ben am 15.00.

<u>Cadeirydd</u>